10FED O HYDREF

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Calendr

**15.10.25**
**Diwrnod Shwmae/ Su'mae**

**23.10.25**
**Disgo Calan Gaeaf**

## Wythnos yma

### Awdit Tlodi Treganna

Wythnos yma daeth athrawon o ysgolion y clwstwr i gynnal Awdit Tlodi yn yr ysgol. Mae'r gwaith yma yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru ac mae pob ysgol yn y clwstwr yn rhan o'r prosiect yma. Diolch i bawb wnaeth gwblhau holiadur y rhieni. Byddwn yn derbyn adroddiad yn sôn am yr hyn mae'r ysgol yn gwneud yn dda, yn ogystal ag awgrymiadau sut allwn wella ein darpariaeth.

### Bingo

Diolch yn fawr i bawb wnaeth ddod nos Wener ddiwethaf i gefnogi noson Bingo'r GRhA. Roedd y noson yn llwyddiant enfawr a diolch i'r GRhA am eu holl waith yn trefnu'r noson. Codwyd swm anhygoel o £1,326! Bydd yr arian yma yna cael ei ddefnyddio i adnewyddu'r fframiau dringo ar yr iard ac yn mynd tuag at greu "Y Sied", sef cwt chwarae fydd yn hybu chwarae creadigol yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

### Banc Rhoddion Bwyd

Eleni rydym yn casglu rhoddion ar gyfer y Banc Bwyd. Gofynnwn yn garedig i chi ddod ag unrhyw gyfraniadau i'r ysgol cyn yr 20fed o Hydref.

# Treganna'n Trafod Testunau

Yn dilyn llwyddiant ysgubol tîm Blwyddyn 6 yng nghystadleuaeth Gornest Llyfrau 2025, penderfynodd y tîm fuddsoddi eu gwobr ariannol mewn prynu llyfrau newydd i'r ysgol. Yn ogystal, awgrymodd y disgyblion greu gwefan lle gallai plant Ysgol Gymraeg Treganna rannu eu hadolygiadau o'r llyfrau, gyda'r nod o hyrwyddo darllen llyfrau Cymraeg ymhlith disgyblion yr ysgol.

Rydyn ni'n gwahodd plant o bob oedran i ysgrifennu adolygiadau o lyfrau Cymraeg a'u hanfon i **evansg13@hwbmail.net**. Byddwn yn eu huwchlwytho i'r wefan fel bod eraill yn gallu gweld barn eu cyfoedion am lyfrau Cymraeg.

Mae croeso hefyd i blant ailysgrifennu adolygiadau neu eu recordio ar ffurf sain neu fideo – byddwn yn hapus i rannu'r rhain hefyd!

Felly, cadwch lygad ar ein gwefan am adolygiadau cyson gan ddisgyblion, wrth iddyn nhw rannu eu barn am y llyfrau newydd a'u hargymhellion darllen!
https://sites.google.com/view/tregannantrafodtestunau/hafan

# Wythnos Gwrth-fwlio

Wrth i ni baratoi ar gyfer **Wythnos Gwrth-fwlio**, rydym am sicrhau bod ein gweithgareddau a'n neges yn cefnogi ein disgyblion ac yn adlewyrchu anghenion ein cymuned ysgol.

I'n helpu i wneud hyn, gofynnwn yn garedig i chi lenwi holiadur byr.

Bydd eich mewnbwn yn ein helpu i ddeall yn well sut mae bwlio yn effeithio ar blant a sut y gallwn gydweithio i'w atal.

Rhieni
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5ky4mhVA7siRBpLBeohD1XipUN0QxRkpOTlJIWUtFMEo0SUJONkw1QTRRNy4u

Plentyn
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5ky4mhVA7siRBpLBeohD1XipUQTNKRDhGVlVPUDNSMUkzQlBYN0VGTzNHMy4u

# Disgo Calan Gaeaf

Mae'r disgo Calan Gaeaf blynyddol bron yma! Dewch yn barod i ddawnsio, mwynhau'r gerddoriaeth a chael hwyl gyda'ch ffrindiau ysgol. Dewch yn eich dillad eich hun – beth bynnag sy'n gyfforddus i chi ddawnsio ynddo! Bydd byrbrydau a diodydd wedi'u cynnwys yn y pris. Croeso i flynyddoedd 2-6 ddod â chwpwl o bunnoedd ar gyfer byrbrydau ychwanegol.

23.10.2025

Neuadd Ysgol Treganna a dosbarth Meithrin i blant Math

Tocynnau £2.50 drwy Parent Pay.




## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**

Fy hoff beth i yw…

Fy nghas beth i yw…

**Her**

Mae hwn llawn cystal â…

Dydy hwn ddim cystal â…

**Testun trafod yr wythnos**

Pe bawn i'n anweledig…

**Cân yr wythnos**

Shwsh- Mali Hâf

**Idiom yr wythnos**

Dŵr dan bont